Enwau lleoedd hanesyddol Cymru

Dr James January-McCann: Swyddog Enwau Llefydd, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Lansiwyd y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol ym mis Mai 2016 yn sgil Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) y flwyddyn honno. Y mae'r Rhestr yn ateb i'r pryderon mynych a godwyd yn ddiweddar gan Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru, ymysg nifer eraill, yn dilyn newid sawl enw hanesyddol gan berchnogion newydd yn ddiweddar.



Bwriad y prosiect hwn yw ein galluogi i gofnodi, cynnal, ac mewn rhai achosion achub ein henwau lleoedd yng Nghymru, gan ddarparu bas data o enwau y bydd o ddiddordeb i'r cyhoedd, ac yn ddefnyddiol i awdurdodau lleol ac academyddion wrth eu gwaith.

Yn y sgwrs hon trafodir cefndir creu'r Rhestr, a deuir trwy bopeth y gall gwefan y Rhestr ei wneud sydd o fudd i'r rhai sydd â diddordeb mewn enwau lleoedd. Yn ogystal â hyn, trafodir y ffynonellau a ddefnyddiwyd wrth lunio'r Rhestr, a'r rhai y gobeithir eu defnyddio yn y dyfodol agos i ehangu'r cynnwys. Sonnir hefyd am yr amrywiol ffyrdd yr eir ati i farchnata'r Rhestr ymysg y cyhoedd, ac yr hybir y defnydd ohoni, gan fanylu ar y llwyddiant a'r heriau a gafwyd yn y maes hwn eisoes. Cloir gydag apêl i'r cyhoedd i gymryd meddiant o'r Rhestr, a helpu gyda'r gwaith o ehangu ei chynnwys fel ei bod yn cyflawni'r ddelwedd lawnaf posibl o dreftadaeth enwau Cymru.